**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## PENODI AELODAU ANNIBYNNOL O BWYLLGOR SAFONAU

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I ystyried y nifer o aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau a'r trefniadau ar gyfer llenwi unrhyw swyddi gwag.

### Cyflwyniad

**2.** Pan benodwyd y Pwyllgor Safonau yn 2003, apwyntiwyd dau o'r tri aelod annibynnol am chwe mlynedd ac un am bedair blynedd. Diben hyn oedd i ddarparu parhad, oherwydd, ar yr adeg hynny, gallai aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau wasanaethu am un tymor yn unig.

**3.** O ganlyniad i Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae'n bosib i aelod annibynnol gael ei ailbenodi am dymor pellach o hyd at bedair mlynedd fan bellaf. Nid oes dim gofyniad cyfreithiol i hysbysebu swydd wag os bwriedir ailbenodi.

**4.** Safbwynt y Pwyllgor Safonau yw:

(a) os yw aelod annibynnol yn fodlon cael ei ailbenodi, y dylai'r Awdurdod fod yn barod i ystyried:

(b) cynyddu nifer yr aelodau annibynnol i bedwar, er mwyn ei gwneud yn haws i sicrhau cworwm ar gyfer cyfarfodydd;

(c) os yw'r Awdurdod yn cytuno â (b), yn unol â gofynion y rheoliadau, bydd yn rhaid hysbysebu'r swydd wag.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**5.** Yn 2003, roedd yr ymateb i hysbysebion yn isel. Fodd bynnag, rwyf eisoes wedi derbyn diddordeb gan unigolyn sydd yn dymuno cael ei ystyried ar gyfer ei benodi. Gyda'r posibilrwydd o lwfans yn dod yn daladwy i aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau o dan reoliadau y'i disgwylir i'w gwneud yn fuan, efallai byddai mwy o ymateb i hysbyseb y tro hwn.

**6.** Os yr hysbysir y swydd wag, mae'r broses o'i llenwi yn gofyn am banel ymgynghorol yn cynnwys dim mwy na phump aelod, a rhaid i un ohonynt fod yn aelod lleyg annibynnol o'r panel. Mae'r panel ymgynghorol yna'n ystyried y ceisiadau ac yn llunio argymhelliad i'r Awdurdod ar bwy ddylid ei benodi. Er mwyn symleiddio'r broses, ac o gofio'r bylchau rhwng cyfarfodydd o'r Awdurdod Tân llawn, argymhellaf isod y dylid dirprwyo penodi yr aelod panel lleyg i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a minnau.

**7.** Mae'r aelod annibynnol y daw ei dymor i ben ym Medi 2007 (Mr Simon Fysh) wedi mynegi ei barodrwydd i gael ei ailbenodi.

**Cyngor**

**8.** Yn unol â barn y Pwyllgor Safonau, argymhellaf y dylid ailbenodi Mr Simon Fysh am dymor o bedair blynedd ac y dylid cynyddu nifer yr aelodau annibynnol i bedwar gan hysbysebu'r swydd wag. Mae goblygiadau cost yn gysylltiedig â hysbysebu, panel ymgynghorol, ayb ond ni ddisgwylir i'r rhain fod dros £1,000 ac y gellir eu hamsugno o fewn cyllidebau presennol gweinyddu pwyllgorau.

**Argymhellion**

**9.** Argymhellaf:

**9.1** y dylid ailbenodi Mr Simon Fysh fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am dymor o bedair blynedd o fis Medi 2007;

**9.2** y dylai'r Pwyllgor Safonau gael pedwar aelod annibynnol ac y dylid hysbysebu'r swydd wag;

**9.3** fod penodi'r aelod lleyg i'r panel ymgynghorol yn cael ei ddirprwyo i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc; a

**9.4** fod dim mwy na phedwar aelod o'r Awdurdod yn cael eu penodi i wasanaethu ar y panel ymgynghorol, ac y dylid cytuno arnynt yn ystod cyfarfod heddiw.